YSGOL ABERCONWY

# YMGYNGHORIAD AR WISG YSGOL

*Diolch am eich adborth a'ch cefnogaeth*

Diolch i bawb a dreuliodd amser yn cwblhau ein hymgynghoriad ar-lein ac yn mynychu'r cyfarfodydd wyneb yn wyneb ynghylch y newidiadau arfaethedig I'r wisg ysgol.

Mae'n bleser gennym adrodd bod cefnogaeth gref gan rieni i gyflwyniad gwisg ysgol aml-bwrpas ac, o ganlyniad, bydd y trefniadau newydd yn cael eu rhoi ar waith **o fis Medi 2026 ymlaen.**

Gellir dod o hyd i wybodaeth bellach, gan gynnwys enghreifftiau o'r wisg ysgol newydd, ar wefan yr ysgol: https://www.aberconwy.conwy.sch.uk/cy/school-uniform/

## CANLYNIADAU'R YMGYNGHORIAD

**SGÔR GYFARTALOG**

**4.17/5**

**74%**

RHODDODD 74% O RIENI SGÔR UCHEL (4 NEU 5 ALLAN O 5) I'R CYNNIG

**60%**

RHODDODD 60% O RIENI Y SGÔR UCHAF POSIBL (5 ALLAN O 5)

Dangosodd yr ymgynghoriad fod cefnogaeth gref yn gyffredinol i'r newid i wisg ysgol aml-bwrpas, gyda llawer o rieni yn tynnu sylw at y manteision, sef ei bod yn fwy cyfforddus, ymarferol a chynhwysol.

## EICH PRYDERON, EIN HYMATEB

### TACLUSRWYDD A HUNANIAETH YSGOL

**EICH PRYDER**

Dyma'r pryder mwyaf cyffredin a godwyd gan rieni a oedd yn llai cefnogol o'r cynnig.

**EIN HYMATEB**

Rydym yn cydnabod bod ymddangosiad taclus yn cyfrannu at ddiwylliant ysgol cadarnhaol ac ymdeimlad cryf o hunaniaeth. Fodd bynnag, dangosir safonau uchel mewn llawer mwy o ffyrdd na gwisg ysgol yn unig, gan gynnwys ymddygiad, presenoldeb, agweddau tuag at ddysgu a'r balchder y mae disgyblion yn ei deimlo yn eu gwaith ac yn eu cymuned ysgol.

Mae ymchwil a phrofiadau llawer o ysgolion yn awgrymu y gall gwisgoedd ysgol ymarferol a chyfforddus gefnogi lles a pharodrwydd i ddysgu, gan gynnal safonau uchel ar yr un pryd.

### GWISGO DILLAD ADDYSG GORFFOROL DRWY'R DYDD

**EICH PRYDER**

Cododd nifer o rieni bryderon ynghylch hylendid a disgyblion yn parhau i wisgo dillad Addysg Gorfforol ar ôl gwersi.

**EIN HYMATEB**

Mae'r trefniant hwn eisoes ar waith ar gyfer llawer o ddisgyblion sy'n mynd i'r ysgol yn eu dillad Addysg Gorfforol ac yn parhau i'w gwisgo drwy'r dydd. Nid ydym wedi derbyn unrhyw bryderon sylweddol ynghylch hylendid yn sgil hyn.

Bydd cyfleusterau newid yn parhau i fod ar gael i ddisgyblion sy'n dymuno eu defnyddio. Yn ogystal, mae croeso i ddisgyblion ddod â chrys sbâr i'w wisgo ar ôl gwersi Addysg Gorfforol os yw'n well ganddynt wneud hynny.

### ESGIDIAU

**EICH PRYDER**

Gofynnodd llawer o rieni am ragor o eglurhad ynghylch esgidiau derbyniol.

**EIN HYMATEB**

Ni fydd y disgwyliadau o ran esgidiau yn newid. Dylai disgyblion wisgo esgidiau hyfforddi neu esgidiau du plaen. Mae logos du bach yn dderbyniol, fodd bynnag ni chaniateir logos, gwadnau na marciau lliwgar. Bydd enghreifftiau o esgidiau addas ar gael ar wefan yr ysgol i gynorthwyo teuluoedd wrth brynu eitemau gwisg ysgol.

### TREFNIADAU PONTIO

**EICH PRYDER**

Gofynnodd nifer o rieni am eglurhad ynghylch cyflwyno'r wisg ysgol newydd.

**EIN HYMATEB**

Er mwyn lleihau costau a chefnogi teuluoedd gyda'r newid, bydd cyfnod pontio o flwyddyn yn ystod semester 2026–27.

Yn ystod y cyfnod hwn, gall disgyblion barhau i wisgo:

- ✓ Y wisg ysgol aml-bwrpas arfaethedig
- ✓ Siwmper, trowsus neu sgertiau du presennol yr ysgol ar ddiwrnodau pan nad oes gan fyfyrwyr AG

Bydd y dull graddol hwn yn galluogi teuluoedd i newid eitemau bob yn dipyn ac osgoi gwariant diangen.

*Diolch!*

Hoffem ddiolch i'r holl rieni a gofalwyr am eu hadborth adeiladol a'u cefnogaeth barhaus drwy gydol y broses hon. Credwn y bydd y newidiadau hyn yn darparu gwisg ysgol sy'n fwy ymarferol, cyfforddus a chynhwysol i bob disgybl, gan gynnal y safonau uchel a ddisgwylir yn Ysgol Aberconwy.



YSGOL ABERCONWY

# UNIFORM CONSULTATION

*Thank you for your feedback and support*

Thank you to everyone who took the time to complete our online consultation and attend the face-to-face meetings regarding the proposed changes to the school uniform.

We are pleased to report that there was strong parental support for the introduction of an all-purpose uniform and, as a result, the new arrangements will be implemented from September 2026.

Further information, including examples of the new uniform, can be found on the school website: https://www.aberconwy.conwy.sch.uk/en_gb/school-uniform/

## CONSULTATION RESULTS

**AVERAGE RATING**

**4.17/5**

**74%**

OF PARENTS RATED THE PROPOSAL POSITIVELY (4 OR 5 OUT OF 5)

**60%**

OF PARENTS GAVE THE HIGHEST POSSIBLE RATING (5 OUT OF 5)

The consultation demonstrated strong overall support for the move to an all-purpose uniform, with many parents highlighting the benefits of increased comfort, practicality and inclusivity.

## YOUR CONCERNS, OUR RESPONSE

### SMARTNESS AND SCHOOL IDENTITY

**YOUR CONCERN**

This was the most common concern raised by parents who were less supportive of the proposal.

**OUR RESPONSE**

We recognise that a smart appearance contributes to a positive school culture and a strong sense of identity. However, high standards are demonstrated in many ways beyond uniform alone, including behaviour, attendance, attitudes to learning and the pride students take in their work and school community.

Research and the experiences of many schools suggest that practical, comfortable uniforms can support wellbeing and readiness to learn whilst maintaining high standards.

### WEARING PE CLOTHING THROUGHOUT THE DAY

**YOUR CONCERN**

Several parents raised concerns regarding hygiene and students remaining in PE clothing after lessons.

**OUR RESPONSE**

This arrangement is already in place for many students, who currently attend school in their PE kit and remain in it through the day. We have not received any significant concerns regarding hygiene as a result this practice.

Changing facilities will continue to be available for students who wish to use them. In addition, students are welcome to bring a spare top to change into after PE lessons if they prefer.

### FOOTWEAR

**YOUR CONCERN**

Many parents requested further clarification regarding acceptable footwear.

**OUR RESPONSE**

Footwear expectations will remain unchanged. Students should wear plain black trainers or shoes. Small black logos are acceptable, however coloured logos, soles or markings will not be permitted.

Examples of suitable footwear will be available on the school website to support families when purchasing uniform items.

### TRANSITION ARRANGEMENTS

**YOUR CONCERN**

Several parents requested clarification regarding the introduction of the new uniform.

**OUR RESPONSE**

To minimize costs and support families with the transition, there will be a one-year transition period during the 2026–27 semester.

During this period, students may continue to wear:

- ✓ The proposed all-purpose uniform
- ✓ The current school jumper, black trousers or skirts on days when required

This phased approach will allow families to replace items gradually and avoid unnecessary expenditure.

*Thank you!*

We would like to thank all parents and carers for their constructive feedback and continued support throughout this process. We believe these changes will provide a more practical, comfortable and inclusive uniform for all students, whilst maintaining the high standards expected at Ysgol Aberconwy.

